# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tŷ Gibraltar**

**Pentref Gofal Gibraltar**
**Tŷ Gibraltar**
**Heol Portal**
**Trefynwy**
**NP25 5FL**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**1 a 2 Medi 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Thŷ Gibraltar

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion â gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gibraltar Care Village Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 95 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 16/3/2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac nid yw'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r staff yn trin y bobl ag urddas, ac maent yn cael eu recriwtio, eu cefnogi a'u hyfforddi'n ddiogel. Mae gan bob person gynllun gofal personol. Mae adolygiadau a diweddariadau i gynlluniau yn anghyson, nid ydynt yn nodi canlyniadau personol na sut y gellid cyflawni'r rhain. Mae angen cryfhau arferion rhoi meddyginiaeth. Dylid parhau i adolygu lefelau staffio, yn enwedig ar adegau prysur fel amser bwyd. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gyfyng ac mae lefelau rhyngweithio cymdeithasol ac ysgogiad yn amrywio. Mae angen gwelliannau i sicrhau bod y corff rheoleiddio yn cael gwybod am bob digwyddiad hysbysadwy. Mae systemau sicrhau ansawdd mewnol wedi nodi meysydd i'w gwella ac mae'r unigolyn cyfrifol yn bwrw ymlaen â hyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth yn rheolaidd hyd nes y penodir rheolwr newydd yn ffurfiol. Mae'r amgylchedd yn gartrefol, yn lân, ac wedi'i addurno i safon dda. Nid yw diogelwch tân yn ddigon cadarn.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael eu hannog a'u cynorthwyo gan y staff gofal i fod mor iach ag y gallant fod. Mae’r bobl wedi datblygu perthynas dda â’r staff parhaol ac mae hyn yn helpu i gefnogi llesiant ac iechyd emosiynol y bobl. Mae gan y bobl fynediad at wasanaethau meddyg teulu. Mae apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu trefnu ar gyfer gwiriadau rheolaidd neu os bydd anghenion unigol yn newid. Mae angen gwelliannau o ran rhoi meddyginiaethau. Cynigir diodydd ac ychwanegir atynt yn ôl yr angen. Nodwyd gennym fod hoff bethau a chas bethau, alergeddau a deietau arbenigol y bobl yn hysbys. Roedd y gwasanaeth wedi'i arolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac wedi cael sgôr o bump, sy'n dangos bod y gwasanaeth wedi'i raddio'n dda iawn.

Ar y cyfan, roedd y bobl yn canmol y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd un person wrthym *“Mae’r staff yn wych ac rwy’n ei hoffi yma”* dywedodd un arall, *“mae'r rhan fwyaf o'r staff yn hyfryd”.* Roedd teuluoedd a oedd yn ymweld y gwnaethom siarad â nhw, ar y cyfan yn gadarnhaol am y gofal a ddarperir i'w hanwyliaid. Dywedodd un person, *“mae'n ymddangos ei fod yn hoffi'r gofalwyr ac wedi ymgartrefu”.* Roeddent yn teimlo'n hyderus y byddai'r staff a'r rheolwyr yn gwrando ar eu pryderon a’u bod wedi gwrando arnynt. Codwyd lefelau staffio a pha mor brysur oedd y staff, a dywedodd un person, *“Does dim digon ohonyn nhw (staff) ar adegau”* a dywedodd rhywun arall*, “gall lefelau staffio amrywio”.* Mae'r amgylchedd yn brysur iawn ar adegau; gwelsom y staff gofal yn ymateb i anghenion y bobl mor gyflym ag y gallent. Dywedodd un aelod o staff, *“gall fod yn anodd gwneud (gweithgareddau) galwedigaethol ac un i un gyda phobl pan nad oes digon o staff”.*

Mae'r amgylchedd ffisegol dan do yn diwallu anghenion y bobl ac mae'n ddiogel a sicr. Gall y bobl symud o gwmpas yn annibynnol. Mae mynediad at fannau awyr agored yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd gofynion cynnal a chadw. Mae nifer o fannau cymunedol a chyfleusterau i’r bobl eu defnyddio. Mae coridorau'n cynnwys mannau eistedd rheolaidd i’r bobl orffwys a rhyngweithio ag eraill. Ar draws yr adeilad mae gwrthrychau o ddiddordeb i’r bobl eu cyffwrdd ac i hel atgofion. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sy'n gynnes ac yn lân ac sy’n cynnwys eitemau personol at eu chwant eu hunain. Mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch ar waith a chaiff archwiliadau eu cwblhau.

Mae gan y darparwr fesurau ar waith i amddiffyn y bobl rhag y risg o gamdriniaeth. Caiff risgiau i’r bobl eu hasesu a chaiff eu diogelwch ei reoli a'i fonitro. Mae systemau ar waith i gofnodi damweiniau a digwyddiadau. Mae archwiliadau o ddarpariaeth gofal a monitro iechyd a diogelwch y bobl ar waith. Caiff gwiriadau cymeriad ac addasrwydd staff i gyflawni eu rolau cyn darparu gofal eu cwblhau. Mae’r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu. Lle mae cyfyngiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud er lles gorau’r bobl i reoli eu diogelwch, mae'r rhain yn ymddangos yn gymesur.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol ar waith ar gyfer pob person. Mae pob cynllun yn ymdrin â meysydd craidd gofal a chymorth person ac yn manylu ar sut y gall y staff eu cefnogi'n ddiogel. Mae angen gofal a sylw dyledus i sicrhau bod yr holl gynlluniau'n gyfredol. Er enghraifft, nid oedd asesiad rheiliau gwely wedi'i gwblhau i berson a oedd yn defnyddio rheiliau gwely i ddangos pam yr oedd eu hangen. Mae lefel y manylder o fewn hanes personol a chymdeithasol, a dewisiadau, hoffterau ac arferion y bobl yn amrywio. Nid yw canlyniadau personol i unigolion bob amser yn cael eu cynnwys. Mae angen tystiolaeth well o gyfranogiad y bobl mewn adolygiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae angen gwella'r meysydd uchod, a disgwyliwn i'r darparwr weithredu, a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae systemau ar waith i sicrhau bod buddiannau gorau’r bobl yn cael eu hyrwyddo. Cwblheir asesiadau gallu yn rheolaidd. Pan nad oedd gan y bobl y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau pwysig yn ymwneud â'u bywyd, gwelsom y gofynnwyd am awdurdodiadau o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'u bod wedi cael eu rhoi ar waith. Mae angen rhagor o fanylion am y bobl sy'n ymwneud â'r broses yn yr asesiadau budd pennaf.

Mae angen cryfhau arferion rhoi meddyginiaeth gyfredol. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Mae meddyginiaeth a reolir yn cael ei monitro. Nid oedd gwaith papur meddyginiaeth cudd wedi'i adolygu'n briodol. Roedd cofnodion rhoi meddyginiaeth yn dangos bylchau yn y cofnodion a diwygiadau a wnaed heb lofnodion i nodi pwy wnaeth y newidiadau. Mae hwn yn faes i'w wella, a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau gweithredu, a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Roedd lefelau staffio'n ddigonol ar ddiwrnod ein harolygiad i ddiwallu anghenion gofal sylfaenol y bobl ond mae angen eu hadolygu. Prin yw'r cyfleoedd i gymryd rhan weithredol a chael eu hysgogi trwy gydol y dydd, yn enwedig i'r rheini y gofelir amdanynt yn eu hystafell. Mae'r amgylchedd yn brysur iawn ar adegau. Ychydig iawn o amser oedd gan y staff i ryngweithio â’r bobl yn ystod amser bwyd. Ar un achlysur, gwelsom y bobl a oedd yn bwyta'n annibynnol yn cael eu gweini gyntaf, a'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt yn cael eu gweini wedyn. Roedd yn rhaid i’r bobl aros mwy na 30 munud a gwylio eraill o'u cwmpas yn bwyta eu prydau bwyd. Ar achlysur arall, gwelsom unigolyn yn ei chael yn anodd defnyddio ei fforc yn briodol ac nid oedd y staff yn cynnig cymorth mewn modd amserol. Drwy gydol y dydd, gwelsom y bobl yn treulio cyfnodau hir o amser heb fawr o ryngweithio gan y staff. Gallai hyn arwain at ddiflastod ac unigrwydd. Gwelsom ddigwyddiadau lle'r oedd yn rhaid i’r bobl aros am gymorth i gyflawni gofal personol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn aml yn brysur ac yn teimlo eu bod ar frys. Mae hwn yn faes i'w wella yr ydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae’r bobl yn elwa ar amgylchedd diogel a sicr. Wrth gyrraedd, roedd y prif ddrws yn ddiogel a gofynnwyd i ni gwblhau system dderbyn electronig. Gofynnwyd i ni hefyd gymryd rhagofalon rheoli heintiau er mwyn sicrhau diogelwch y bobl.

Darperir llety dros dri llawr, y cyfeirir atynt fel strydoedd a thai. Mae gofod cymunol ar bob llawr, gall y bobl ddewis bod yng nghwmni eraill neu dreulio amser ar eu pen eu hunain. Gall y bobl symud o gwmpas yn annibynnol a gallant ddewis ble yr hoffent dreulio eu hamser. Mae coridorau'n cynnwys mannau eistedd rheolaidd i’r bobl orffwys a rhyngweithio ag eraill. Ar draws yr adeilad mae gwrthrychau o ddiddordeb i’r bobl eu cyffwrdd ac i hel atgofion. Mae gan y bobl eu hystafelloedd eu hunain, sy'n gynnes ac yn lân ac sy’n cynnwys eitemau personol at eu chwant eu hunain. Mae gan y rhan fwyaf o’r bobl luniau teulu, cardiau a thlysau yn eu hystafelloedd, sy'n rhoi naws gartrefol i'w hamgylchoedd.

Mae mynediad i fannau awyr agored yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd bod yr ardal fawr o ddecin uchel yn anniogel i'w defnyddio. Mae'r darparwr wrthi'n cyrchu dyfynbrisiau ar gyfer gwneud gwaith i’w hadfer. Mae mynediad uniongyrchol i'r gerddi ar y llawr daear ond mae'r llwybrau'n anwastad ac angen eu trwsio i leihau'r risg o faglu a chwympo.

Roedd y cofnodion iechyd a diogelwch a welsom yn dangos bod profion cyfleustodau wedi'u cwblhau'n rheolaidd. Archwilio a gwasanaethu offer. Mae gan y darparwr system ar waith i gofnodi a monitro ceisiadau cynnal a chadw. Cwblheir profion diogelwch tân yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni chynhelir gweithdrefnau gwacáu'r adeilad ac ymarferion tân yn rheolaidd. Nid yw Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu hadolygu mewn modd amserol er mwyn sicrhau bod y lefel gywir o gefnogaeth sydd ei hangen ar y bobl mewn argyfwng yn cael ei chofnodi. Mae hwn yn faes i’w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cadw golwg agos ar y gwasanaeth ac mae ganddo bresenoldeb gweithredol, rheolaidd hyd nes y penodir rheolwr newydd yn ffurfiol. Mae'r gwasanaeth wedi bod heb reolwr cofrestredig ers saith mis. Mae hwn yn faes i'w wella, a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau gweithredu, a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau'r adolygiadau sicrhau ansawdd gofynnol sy'n cefnogi'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth. Mae trefniadau monitro rheolaidd ar waith, sy'n adolygu darpariaeth y gwasanaeth ac yn asesu ansawdd. Mae gan y gwasanaeth system fonitro o bell o'r enw 'tudalen y dydd' sy'n adolygu darpariaeth y gwasanaeth bob dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn amlygu'r camau gweithredu y mae angen i'r tîm eu cymryd bob dydd.

Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i benderfynu ar benodiad staff. Gwelsom ffeiliau staff a chanfod bod y gwiriadau diogelwch a sgrinio angenrheidiol cyn cyflogaeth wedi'u cynnal. Darparwyd hanes cyflogaeth yr ymgeiswyr. Mae dulliau adnabod a geirdaon yn cefnogi ymhellach ffitrwydd unigol y staff i weithio yn y gwasanaeth. Mae angen tystiolaeth well o alluoedd ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu rôl, er y gallai fod yn brysur iawn ar adegau ac roeddent yn siarad yn gadarnhaol am eu cyflogaeth.  Dywedasant eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hyderus yn eu rôl, a bod y tîm rheoli yn hawdd mynd atynt. Roedd matrics goruchwylio'r staff yn dangos bod yr holl staff wedi derbyn goruchwyliaeth yn ystod y tri mis diwethaf. Nid yw'r cofnodion goruchwylio yn fanwl ac nid oedd tystiolaeth i ddangos adborth ar berfformiad gwaith. Mae'r staff sydd newydd eu penodi yn cael cyfnod sefydlu ac mae'r holl staff a gyflogir yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau.

Nid yw'r rheolwyr yn anfon hysbysiadau priodol yn gyson at gyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol perthnasol. Er enghraifft, nid yw achosion y staff yn profi'n bositif am afiechyd heintus ac achosion o wlserau pwyso bob amser yn cael eu hanfon fel sy'n ofynnol. Mae hwn yn faes i'w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o’r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae’n rhaid i’r darparwr gymryd camau brys i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes / Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw’r cynlluniau personol bob amser yn ystyried/cofnodi'r dymuniadau, y dyheadau neu’r canlyniadau personol yr hoffai pob unigolyn eu cyflawni. | Newydd |
| 34 | Yn ystod cyfnodau prysur, nid yw lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal neu iechyd emosiynol a llesiant y bobl. | Newydd |
| 60 | Mae’r darparwr wedi methu â hysbysu AGC am rai digwyddiadau yn unol â’r hyn sy’n ofynnol yn y rheoliadau. | Newydd |
| 67 | Methiant i benodi rheolwr. | Newydd |
| 72 | Methiant i hysbysu AGC bod y rheolwr cofrestredig wedi gadael a nodi’r trefniadau cyflenwi mewn modd amserol. | Newydd |
| 58 | Methiant i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei chofnodi a'i rhoi'n briodol. | Newydd |
| 57 | Nid yw’r systemau diogelwch tân yn ddigonol. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 02/11/2022